PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Polisi ar Ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill gan fyfyrwyr

| Adol. | Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|---|
| 1. | | Cyhoeddiad Cyntaf - Fersiwn 1 | |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog Cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio | Ysgrifennydd y Brifysgol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

Fersiwn 1, Medi 2020

## Polisi ar ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill gan fyfyrwyr.

### 1. Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n astudio ym Mhrifysgol Bangor neu ar raglenni achrededig Prifysgol Bangor ac mae hefyd yn berthnasol wrth ymgymryd â dyletswyddau swyddogol ar ran y Brifysgol naill ai mewn swydd gyflogedig neu ar sail wirfoddol (e.e. myfyrwyr-fentoriaid, arweinwyr cyfoed, interniaid, gwirfoddolwyr ar ddiwrnodau agored, ac ati).

### 2. Rhagarweiniad

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r egwyddorion y mae disgwyl i fyfyrwyr eu dilyn ar-lein. Mae'n amhosibl ymdrin â phob digwyddiad; fodd bynnag, dylid dilyn yr egwyddorion a nodir yn y ddogfen hon. Nid bwriad y ddogfen hon yw atal unigolion rhag ymwneud â gweithgareddau dilys ar y rhyngrwyd a’r cyfryngau cymdeithasol ond, yn hytrach, nodi'r mannau hynny lle gall gwrthdaro ddigwydd.

Gallai unrhyw achos o dorri'r Polisi hefyd dorri'r Rheoliadau Cyffredinol i’r Holl Fyfyrwyr (Rheoliad 13) ac er y byddwn yn ceisio datrys problemau’n anffurfiol pan fo hynny'n briodol, efallai y byddai angen i'r Brifysgol drin materion o’r fath yn ffurfiol. Gellir ystyried achosion o dorri’r amodau hyn o dan weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol yn unol â'r Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr (Rheoliad 21).

### 3. Egwyddorion

Dylid trafod ymlaen llaw gyda’r tiwtor personol unrhyw weithgareddau ar-lein sy'n cysylltu myfyrwyr â'u gwaith academaidd megis wrth ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i gasglu data.

Dylai gweithgareddau ar-lein a allai gysylltu myfyrwyr ag unrhyw weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys Clybiau, Cymdeithasau a Grwpiau Gwirfoddoli Undeb Bangor fod yn unol â gofynion unrhyw gytundeb aelodaeth, canllawiau lleol neu reoliadau perthnasol eraill a allai fod ar waith.

Ni ddylai unigolion ymwneud â gweithgareddau ar y Rhyngrwyd a allai ddod ag anfri ar y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr.

Ni ddylai myfyrwyr ddefnyddio’r rhyngrwyd mewn unrhyw ffordd i ymosod ar unigolion, grwpiau neu sefydliadau eraill, eu difrïo neu eu difenwi. Ni ddylai myfyrwyr gyhoeddi sylwadau difenwol neu dramgwyddus ar y Rhyngrwyd a dylent fod yn ymwybodol o ystyriaethau diogelu data a phreifatrwydd, wrth gyhoeddi ffotograffau o unigolion ar-lein, heb gydsyniad y person dan sylw. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, fodd bynnag, ei bwriad yw darparu canllaw ar gyfer gweithgarwch cyfrifol.

Caniateir i fyfyrwyr ddiweddaru eu blog personol a'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio cyfrifiaduron y Brifysgol yn amodol ar Adran 4.1 o *Reoliadau Defnydd Derbyniol* y Brifysgol.

Rhaid i fyfyrwyr ymddwyn yn gyfrifol ac yn briodol heb achosi niwsans na thramgwydd yn ystod darlithoedd, seminarau ac unrhyw weithgareddau swyddogol eraill, gan gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar-lein neu ar lwyfannau digidol. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau "sgwrsio" a / neu negeseuon.

### 4. Llwyfannau Ar-lein / Digidol, gan gynnwys Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol neu Flogiau

Mae llwyfannau ar-lein / digidol gan gynnwys y rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol yn darparu ffordd i bobl gadw mewn cysylltiad â myfyrwyr a ffrindiau eraill. Fodd bynnag, oherwydd natur agored safleoedd o'r fath mae'n bosibl hefyd i drydydd partïon gasglu ynghyd symiau enfawr o wybodaeth.

Dylai unigolion fod yn wyliadwrus o'r wybodaeth y maent yn ei datgelu ar y rhyngrwyd ac unrhyw lwyfan digidol. Pan fyddant yn cysylltu eu hunain â'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr neu trwy ymuno â rhwydwaith neu Grŵp Myfyrwyr Prifysgol Bangor, dylent weithredu mewn modd sydd ddim yn dwyn anfri ar y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr, a / neu a allai arwain at hawliad cyfreithiol yn erbyn y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr neu a allai yn rhesymol beri tramgwydd i eraill.

Mewn perthynas â'u cyfrifon eu hunain ar y cyfryngau cymdeithasol, dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o bwy sy'n gallu gweld eu proffil, a gweithredu'n briodol.   Dylai myfyrwyr ystyried yr effaith bosibl o roi sylwadau am ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, ac nid yw defnyddio ymwadiad yn ddigon yn hyn o beth. Ni ddylai sylwadau a/neu negeseuon ar gyfrifon rhwydweithio cymdeithasol personol ddatgelu unrhyw wybodaeth sy'n sensitif, yn gyfrinachol neu'n eiddo i'r Brifysgol ei hun a/neu i unrhyw drydydd parti sydd wedi datgelu gwybodaeth i'r Brifysgol. Mewn achosion o'r fath, gall y Brifysgol, os yw'n briodol, ystyried cymryd camau disgyblu ac, mewn achosion eithafol, gall hefyd ystyried cymryd camau cyfreithiol.

Dylai myfyrwyr barchu preifatrwydd a theimladau pawb a allai weld neu gael eu heffeithio gan y cynnwys y maent yn ei gyhoeddi. Dylai myfyrwyr hefyd fod yn ymwybodol os ydynt yn torri'r gyfraith ar flog (er enghraifft trwy gynnwys rhywbeth difenwol) mai ef neu hi fydd yn bersonol gyfrifol am hynny.

Dylai myfyrwyr bob amser gadw at ofynion polisïau Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol wrth ystyried datgelu gwybodaeth. Efallai y bydd Blogiau, Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol, llwyfannau digidol neu wefannau nad ydynt i ddechrau'n datgelu pwy yw'r awdur yn cael eu cynnwys yn y Polisi hwn o hyd os daw hunaniaeth yr awdur yn hysbys yn ddiweddarach.

### 5. Adrodd

Gellir rhoi gwybod am unrhyw gamddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau trydydd parti eraill fel cwyn a dylid ei chyflwyno i cwynion@bangor.ac.uk a bydd yn cael ei reoli yn unol â'r Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

Gall unrhyw un sy'n dioddef achosion o aflonyddu a cham-drin geisio cefnogaeth y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. Cewch ragor o wybodaeth yma.)

## 6. Rhagor o Wybodaeth

*Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau / canllawiau eraill y Brifysgol / Undeb y Myfyrwyr, yn enwedig y canlynol:*

- *Hysbysiad Preifatrwydd*.
- *Polisi Diogelu Data*.
- *Rheoliadau Defnydd Derbyniol.*
- *Diogelu Eich Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol*.
- *Rheoliad 21: Disgyblu Myfyrwyr.*
- *Rheoliad 13: Rheoliadau Cyffredinol i'r Holl Fyfyrwyr a Chod Ymddygiad.*